Cyf Rheoli Fersiwn: 1.0

# ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (WESP) RHAGFYR 2019


Awdur: Claire Gardner
Cymeradwywyd: Lynn Phillips


## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL/UCHAFBWYNTIAU

Nodwch ddim mwy na 5 o'ch prif gyflawniadau/uchafbwyntiau yn yr adran yma.

1. Bu Blaenau Gwent yn llwyddiannus wrth sicrhau cymeradwyaeth cyllid Ysgolion 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ailfodelu Band B yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae Addysg yn mynd ag adroddiad drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor sy’n anelu i fynd â phrosesau ymgynghori statudol ymlaen yn unol â’r cynnig i greu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg gyda 210 lle yn ardal Tredegar/ Cwm Sirhywi.
2. Mae nifer y disgyblion ar y gofrestr, ynghyd â'r rhai sy'n gwneud cais am le yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg, yn parhau i gynyddu gyda thueddiad cadarnhaol i'w weld dros y 3 blynedd ddiwethaf yng nghyswllt y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Yn ychwanegol, roedd y cyfraddau trosglwyddo rhwng cynradd ac uwchradd yn parhau yn 100% ar gyfer 2019/20.
3. Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cryf, sy'n targedu a hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog, tra hefyd yn sefydlu dulliau priodol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid, er mwyn llywio blaenoriaethau strategol allweddol.
4. Mae cynrychiolaeth, presenoldeb ac amlder cyfarfodydd y Fforwm Addysg Gymraeg yn parhau’n gryf, gyda phartneriaid wedi ymrwymo’n gadarn i ac yn cydnabod effeithlonrwydd Fforwm Blaenau Gwent. Canmolodd partneriaid waith y Fforwm fel enghraifft o arfer da. Hefyd mae is-grŵp POSP y Fforwm yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i gefnogi cynigion ar gyfer twf a datblygu ar sail ranbarthol ac eto, i lywio cynllunio strategol.
5. Mae ffigurau Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn yn cynyddu flwyddyn ar flwyddyn, roedd 8 wedi cofrestru yn 2019/20 ac mae 13 yn 2020/21. Mae gan EAS 14 lle ar gael i bob ardal yn flynyddol ac yn derbyn mwy o ddatganiadau diddordeb. Mae angen i ysgolion, llywodraethwyr ac unigolion sy’n cymryd rhan fod ag ymroddiad i’r cwrs cyn iddynt gael cyfweliad a chael eu derbyn. Caiff yr hyfforddiant ei gyflenwi o bell a drwy ddulliau cyfunol eleni.

## CRYNODEB O'R CYNLLUN YN GYFFREDINOL

**Gwyrdd/Oren/Coch. Nodwch eich targed cyfredol, eich cyflawniad eleni a hunan-asesiad o goch, oren neu wyrdd.** Hunanasesiad Blaenau Gwent 2018/19 = **Oren**, gyda chyfradd cwblhau cynllun gweithredu 2019/20 yn 84% (neu 49 cam gweithredu) gyda 7% (4) cam gweithredu yn mynd rhagddynt a 9% (5) heb ddechrau. Mae hyn yn is eleni oherwydd cyfyngiadau Covid 19, oedd tu allan i’n rheolaeth.

## DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

Medi 2020, 28 disgybl Bl. 2 (cohort 785) yn cynrychioli 3.56% o’r cohort. Medi 2020, 27 disgybl Bl. 3 (cohort 743), 3.63% o’r cohort. Roedd 44 wedi ymrestru ar gyfer Meithrin ym mis Medi 2020 a 37 Dosbarth Derbyn gyda 11 arall i ddechrau ym mis Ionawr 2021. Blynyddoedd Cynnar – cyfradd trosglwyddo Gwdihŵ Brynithel i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 1 allan o 25 (4.76%) a Helyg Bychan i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 13 allan o 20 (68.9%).

## ALINIAD GYDA'R MEYSYDD POLISI ALLWEDDOL

**E.e.; Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, Rhaglen Ysgolion a Cholegau y 21ain Ganrif.** Defnyddir data Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a diweddariadau dilynol i lywio'r Cynllun a chamau gweithredu cysylltiedig ar lefel strategol a gweithredol. Aiff Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif Blaenau Gwent ati i wella a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol, gyda'r prosiect Band B arfaethedig cyntaf yn cael ei ddatblygu, sef prosiect ailfodelu i wella'r amgylchedd addysgu a dysgu yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Mae'r Cynnig Gofal Plant a'r Grant Gofal Plant o fewn Blaenau Gwent hefyd wedi alinio'n agos gyda'r WESP ac yn anelu i wella a datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant yn y Gymraeg, opsiynau a chyfleoedd.

**Dylech amlinellu risgiau penodol ar lefel yr Awdurdod Lleol sydd neu a fedrai yn y dyfodol effeithio ar gyflawni eich amcan.**

1. Mae risg yng nghyswllt gweithredu cynnig Grant Cyfrwng Cymraeg Blaenau Gwent y cynhelir broses ymgynghori statudol arno .
2. Yn sgil pandemig COVID-1 mae risg gyda throsglwyddo rhwng y blynyddoedd cynnar a’r cyfnod sylfaen, gan olygu y gallai niferoedd ostwng.
3. Mae risg y bydd yr awdurdod lleol yn methu ymrwymo partneriaid yn natblygiad y cynllun 10 mlynedd, oherwydd COVID-19.

1. Bydd Addysg yn mynd ag adroddiad drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor i ddechrau ymgynghoriad statudol ym mis Rhagfyr 2020.
2. Mae dulliau ymgysylltu a chynlluniau eraill yn eu lle rhwng yr ysgol a darparwyr. Mae’r Fforwm Addysg Gymru a’r Is-grŵp Cyfathrebu cysylltiedig yn monitro’n agos ar hyn.
3. Mae cynllun manwl ac amserlen yn cael eu datblygu ac mae partneriaid wedi ymrwymo i’r gweithdy cynllunio cyntaf ym mis Rhagfyr 2020.

## GWEITHREDU A MONITRO

**Nodwch eich dulliau a phrosesau mewnol ar gyfer monitro cynnydd, yn ogystal â'r gwaith monitro drwy'r Fforwm Addysg Gymraeg.**

Mae'r Fforwm yn cwrdd bob tymor gan ddynodi arweinwyr deilliannau ar gyfer pob maes. Mae'r arweinwyr deilliannau'n cefnogi'r tîm Trawsnewid Addysg i olrhain, monitro a chasglu data yn gysylltiedig â'u meysydd deilliannau eu hunain a monitro cynnydd ar y targedau cysylltiedig.

Mae gan y Cyngor broses yn ei lle ar gyfer cynllunio camau gweithredu, er mwyn monitro a chasglu data ar gynnydd a gwybodaeth am yr hyn a gyflawnir o gymharu â'r WESP bob blwyddyn. Ceisir diweddaru hyn bob tymor gyda diweddariad yn nhymor yr hydref a chyfarfod y Fforwm wedyn yn canolbwyntio ar gynnydd blynyddol o gymharu â'r deilliannau a thargedau cysylltiedig.

Caiff adroddiad ei lunio yn nhymor yr hydref bob blwyddyn ac eir ag ef drwy brosesau gwleidyddol y Cyngor ac mae ym mlaenraglennni gwaith y Pwyllgor Craffu a hefyd y Pwyllgor Gweithredol fel rhan o'r cylch blynyddol er mwyn llywio dysgu a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn olynol.

Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer y cynllun 10-mlynedd newydd fydd yn cwrdd yn Rhagfyr 2020 i gytuno ar ddull gweithredu cydlynus.

## CERRIG MILLTIR EDRYCH I'R DYFODOL

**Nodwch unrhyw ddatblygiadau/cerrig milltir sylweddol sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf.**

- Cyflawni Prosiect Ailfodelu Blaenau Gwent dan Raglen Band B Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor.
- Bydd Addysg yn anelu i ddechrau’r broses ymgynghori statudol yn unol â’r cynnig i greu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 210 lle yn ardal Tredegar/cwm Sirhywi.
- Mae’r Cyngor yn anelu cynnal ymgynghoriad/profion marchnad ddechrau 2012 i fod yn sail i ddatblygiad strategaeth farchnata a hyrwyddo y Cyngor yn cynnwys: datblygiadau ac adnoddau seiliedig ar y we.
- Mae’r Cyngor yn anelu i ddatblygu cynllun drwy Is-grŵp POSP a Galw Consortiwm De Ddwyrain Cymru i sicrhau datrysiad rhanbarthol i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg erbyn 2027.
- Mae Cylch Meithrin newydd yn Nhredegar wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd y prosesau recriwtio staff yn agor yn 2021.
- Caiff cynllun peilot ei sefydlu drwy Sefydlu a Llwyddo Mudiad Meithrin gyda Buds to Blossom yn Beaufort i ddarparu sesiynau cylch meithrin ar gyfer y plant yn eu gofal.
- Mae Cylch Meithrin Gwdihŵ (Brynithel) yn ymestyn eu gwasanaethau i ddarparu sesiynau diwrnod llawn 9am-3pm gan ddod yn ddarparydd Addysg. Gallai hyn gynyddu’r galw am leoedd yn y dosbarth derbyn ym Mro Helyg o Frynithel.
- Mae’r Cyngor yn anelu i ddatblygu ac ymgynghori ar ddrafft Gynllun WESP 10-mlynedd.

**Dylech gynnwys crynodeb byr o'ch cynnydd dan bob amcan.**

**Deilliant 1:** Sicrhawyd cynnydd cryf o fewn y maes deilliant hwn, fodd bynnag oherwydd y cyfyngiadau yn gysylltiedig gyda phandemig COVID-19, cafodd cynnydd yn ymwneud ag ymgysylltu wyneb yn wyneb ei atal. Adolygwyd llyfrynnau manteision bod yn ddwyieithog a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gofal plant ac addysg Gymraeg ynghyd ag ymgysylltu rhithiol a'u datblygu ymhellach ystod y cyfnod hwn. Mae'r tîm yn parhau i fonitro cyflenwi'r deilliant hwn ac yn ymchwilio dulliau eraill o ymgysylltu a hyrwyddo. Caiff y galw, marchnata a hyrwyddo eu gyrru gan is-grŵp Cyfathrebu y Fforwm Addysg Gymraeg lleol, ynghyd â datblygiadau allweddol gan Grŵp POSP a Galw am Leoedd rhanbarthol. Mae cynlluniau pellach ar gyfer y we a marchnata yn cael eu datblygu i'w gweithredu drwy gydol 2021. Gwnaed hyrwyddo yn rhithiol gydag unigolion yn cael eu cyfeirio ar-lein at y llyfryn dwyieithog. Mae nifer disgyblion yn yr ysgol gynradd yn parhau i gynyddu.

**Deilliant 2:** Gwnaed cynnydd da yn gyffredinol, fodd bynnag cafodd trosglwyddo a hyrwyddo eu cyfyngu ar sail wyneb i wyneb, gan sefydlu dulliau eraill o gyfathrebu ac ymgysylltu. Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn parhau i fod â pherthynas waith gadarnhaol gyda'r sectorau gofal plant, blynyddoedd cynnar ac uwchradd. Mae'r galw am leoedd meithrin a dosbarth derbyn Cymraeg yn parhau i gynyddu (yn unol â data genedigaethau byw). Mae trosglwyddo uwchradd yn parhau i fod yn gryf gyda 100% o ddisgyblion cynradd Ysgol Gymraeg Bro Helyg yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn rhanbarthol gyda sicrhau darpariaeth uwchradd hirdymor i ddysgwyr Blaenau Gwent, ynghyd â rhai mewn awdurdodau cyfagos, yn unol â chynnig CBS Torfaen i ymestyn ystod oedran Ysgol Gyfun Gwynllyw. Yn ychwanegol, un o nodau allweddol Prosiect Ailfodelu Band B fydd gwella a datblygu amgylchedd addysgu a dysgu Ysgol Gymraeg Bro Helyg i gryfhau a gwella darpariaeth a throsglwyddo – yn y blynyddoedd cynnar a hefyd uwchradd. Mae Cylch Meithrin Gwdihŵ (Brynithel) yn y broses o ymestyn eu gwasanaethau i sesiynau diwrnod llawn 9am - 3pm ac yn mynd drwy'r broses o ddod yn ddarparydd Addysg, gallai hyn gynyddu'r galw yn nosbarth derbyn Bro Helyg o Frynithel.

**Deilliant 3 a 4:** Oherwydd effaith pandemig COVID-19, cafodd clybiau ieuenctid a chyfleoedd a darpariaeth ymgysylltu helaethach cysylltiedig eu hoedi, gydag ymgysylltu o bell/ar-lein yn cael ei sefydlu yn lle. Cafodd y sefyllfa ei gwaethygu oherwydd i staff o'r ddau wasanaeth gael eu rhoi ar ffyrlo. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Urdd yn ymchwilio datblygu darpariaeth Gymraeg ar-lein ar gyfer pobl ifanc. Cafodd cynnydd ar darged 2019/20 i godi defnydd y Gymraeg tu mewn/allan yr ystafell ddosbarth gan 15% (fel yn y 2 flynedd flaenorol) ei atal, fodd bynnag bu cyfleoedd ar gael ar-lein ers mis Medi 2020. Bydd ffocws cynyddol yn y maes hwn yn 2021.

**Deilliant 5:** Gwnaed cynnydd da, fodd bynnag cafodd y pandemig effaith negyddol ar gynnydd oherwydd yr angen i sefydlu angen ac adnoddau a dulliau eraill i hyrwyddo datblygu sgiliau yn y Gymraeg ac adnoddau dysgu cyfunol i gefnogi addysgu'r Gymraeg a'r Gymraeg fel Ail Iaith.

**Deilliant 6:** Gwnaed cynnydd da yn lleol a rhanbarthol wrth lywio polisi ac ymarfer. Mae'r gwaith o ddatblygu adnoddau Cymraeg yn mynd rhagddo ac wedi cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae gwaith yn y maes hwn yn mynd rhagddo yn unol â'r datblygiadau polisi a deddfwriaethol diweddaraf.

**Deilliant 7:** Gwnaed cynnydd da yn y maes deilliant hwn, gyda nifer o ysgolion ym Mlaenau Gwent eisoes yn cymryd rhan yng nghynlluniau a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus cyfrwng Cymraeg. Yn ystod sesiwn academaidd 2019/20 ymrestrodd 8 o staff ar gyfer cyfle sabothol Cymraeg mewn blwyddyn gyda 13 arall wedi ymrestru yn ystod sesiwn academaidd 2020/21.